Llywodraeth Cymru
Welsh Government

FFURFLEN, DOGFENNU

# Grant cyfalaf gwres carbon isel: canllawiau

Canllawiau ar wneud cais am y grant gwres carbon isel, gan gynnwys cymhwysedd ac amodau grant.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 26 Hydref 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 17 Ebrill 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Amcanion grant**

**Amserlenni**

**Cais: sut i fynd ati**

**Cais: asesiad**

**Cais: aeddfedrwydd prosiect**

**Cymhwysedd: sefydliad**

**Cymhwysedd: math a lleoliad y prosiect**

**Cymhwysedd: technoleg a mesurau**

**Cymhwysedd: costau anghymwys**

**Dull adeilad cyfan**

**Cyllid sydd ar gael**

**Meini prawf asesu**

**Gofynion allweddol eraill**

**Amodau**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn wedi'u darparu ochr yn ochr â Ffurflen Gais ar gyfer y Grant Gwres Carbon Isel.

Mae'r cyllid ar gael i bob awdurdod lleol gyda phrosiectau sy'n barod i'w gweithredu. Fe'i bwriedir ar gyfer gwaith cyfalaf sy'n gysylltiedig ag ôl-osod atebion i wres carbon isel mewn adeiladau nad ydynt yn ddomestig, sy'n eiddo i awdurdodau lleol.

Y gyllideb a ddyrannwyd yw hyd at £20 miliwn y flwyddyn, ar gyfer BA 2024/25 a BA 2025/26. Mae hyn yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol weithredu prosiectau gwres carbon isel fel rhan o'u taith tuag at gyflawni Sero Net.

# Amcanion grant

Amcanion y Grant Cyfalaf Gwres Carbon Isel yw:

- Lleihau allyriadau carbon fel rhan o'r ymgyrch tuag at gyflawni sero net
- Cyflymu'r trosglwyddiad i ffwrdd o losgi tanwydd ffosil ar gyfer gwresogi gofod a dŵr poeth
- Darparu cyllid ar gyfer prosiectau gwres carbon isel, gan alluogi cynlluniau gyda sefyllfaoedd ariannol heriol
- Annog dull adeilad cyfan ar gyfer gwres carbon isel
- Datblygu capasiti a nodi’r hyn a ddysgwyd o fewn y sector cyhoeddus gan alluogi gwres carbon isel i ddod yn arfer pob dydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Amserlenni

I gyd-fynd â maint a natur aml-flwyddyn y cynllun bydd nifer o rowndiau ariannu:

Ceisiadau Rownd 2: 25 Hydref 2023 i 31 Mawrth 2024.

Heblaw am geisiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023 i 2024, a'r dyddiad cau yw 15 Rhagfyr 2023

Ceisiadau Rownd 3: Hydref 2024 i Rhagfyr 2024 (yn amodol ar yr arian sydd ar gael yn weddill)

Mae arian yn cael ei ddyrannu ar sail blwyddyn ariannol. Ni ellir trosglwyddo arian o un flwyddyn i'r llall.

Bydd Rownd 2 yn derbyn prosiectau blwyddyn ariannol sengl i'w cyflawni erbyn 31 Mawrth 2025 a cheisiadau aml-flwyddyn i'w cyflwyno erbyn 31 Mawrth 2026. Disgwylir i'r rhan fwyaf o brosiectau ddechrau ym mis Ebrill 2024. Mewn achosion eithriadol byddwn yn derbyn prosiectau sydd â gwariant cyn mis Ebrill 2024, gyda thystiolaeth gref o gyflawni.

Bydd ceisiadau rownd 3 yn cael eu gwario yn BA 2025 i 2026, yn amodol ar argaeledd arian.

Sylwch y bydd cyllid yn cael ei ymrwymo ar sail blwyddyn ariannol o ddechrau mis Ebrill hyd at ddiwedd mis Mawrth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cais: sut i fynd ati

## Mathau o gais

Mae un ffurflen gais, sy'n caniatáu dau fath o gais am gyllid:

- Ceisiadau blwyddyn yn unig: mae'n ofynnol i brosiectau gael eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2025.
- Ceisiadau aml-flwyddyn: mae'r opsiwn hwn ar gyfer prosiectau sydd ar raddfa a fydd yn cymryd mwy nag un flwyddyn ariannol i'w chyflawni a rhaid eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2026. Bydd y cais am gyllid yn gofyn am werth diffiniol y flwyddyn. Gellir gwneud cais am wariant prosiect ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/2024 gyda thystiolaeth gref o gyflawniad.

Ni fydd yn bosibl symud cyllid a ddyrannwyd yn hyblyg o un flwyddyn ariannol i'r llall. Rydym yn disgwyl i geisiadau blwyddyn yn unig gael eu cwblhau yn y flwyddyn honno, a cheisiadau aml-flwyddyn i wario'r gwerthoedd y cytunwyd arnynt ym mhob blwyddyn.

Wrth wneud cais, rhaid i sefydliadau benderfynu a yw pob prosiect yn brosiect blwyddyn neu aml-flwyddyn. Mae'n debygol na fydd yn bosibl ymestyn i gais aml-flwyddyn yn ddiweddarach gan y bydd ymrwymiadau cyllido wedi'u gwneud.

Gellir ychwanegu hyd at 10 adeilad at un ffurflen gais. Os oes gennych fwy na 10 adeilad, bydd angen eu rhannu ar draws sawl ffurflen gais.

# Cais: asesiad

Bydd ceisiadau'n cael eu hadolygu ar sail 3–4 wythnos. Er y bydd cyllid yn cael

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ei ddyrannu ar sail y cyntaf i'r felin mewn egwyddor, gellir gosod cyfyngiadau ar raddfa'r ymrwymiadau cyllid yn y dyfodol, yn ogystal â chap i bob sefydliad, er mwyn sicrhau dosbarthiad teg.

Rydym yn rhagweld y bydd angen cyfarfodydd adolygu ceisiadau gydag ymgeiswyr.

## Cais: aeddfedrwydd prosiect

Rydym yn disgwyl i brosiectau fod mewn sefyllfa sy'n barod am fuddsoddiad. Mae ein profiad o brosiectau gwres carbon isel blaenorol wedi dangos bod y prosiectau sydd â'r llwyddiant mwyaf wrth ddarparu a gwario cyllid grant yn amserol yn dechrau'n gynnar, ac mae ganddynt gynllun prosiect clir. Y meysydd allweddol i'w hystyried, y bydd craffu arnynt yn ystod y broses asesu yw:

- Statws caniatâd cynllunio, os oes angen, neu os cadarnheir ei fod yn ddatblygiad a ganiateir gan y tîm cynllunio lleol
- Sefyllfa gaffael, p'un a yw cyflenwyr mewn contract
- Statws ymgysylltu Gweithredwr Rhwydwaith Ardal, neu gadarnhad nad oes angen uwchraddio i Weithredwr Rhwydwaith Ardal
- Cam dylunio, rydym yn disgwyl o leiaf cam 2 Riba
- Rhagolygon taliad misol (pan fydd yr ymgeisydd yn disgwyl bod yn gofyn am daliadau gan y Gwasanaeth Ynni)

## Cymhwysedd: sefydliad

Mae'r cyllid hwn ar hyn o bryd yn agored i bob prif awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r endidau canlynol wedi eu gwahardd:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Cynghorau Tref
- Cynghorau Cymuned
- Cyrff cyhoeddus eraill

Efallai y bydd cyfle i ymestyn y broses ymgeisio i'r sector cyhoeddus sy'n weddill yn y dyfodol.

## Cymhwysedd: math a lleoliad y prosiect

Mae'r cyllid hwn ar gyfer gwaith cyfalaf ar gyfer ôl-osod datrysiad i wres carbon isel i ddisodli systemau gwresogi tanwydd ffosil mewn adeiladau annomestig awdurdodau lleol. Mae'r Meini Prawf Cymhwysedd yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol fod yn berchen ar yr adeilad neu o dan les hirdymor (o leiaf 10 mlynedd). Rhaid cadw adeiladau sy'n amodol ar grant am 10 mlynedd ar ôl dyfarnu'r grant
- Rhaid i adeiladau fod yn rhan o adroddiad carbon blynyddol yr awdurdod lleol i Lywodraeth Cymru
- Mae'n rhaid i wres adeiladau, ar hyn o bryd, gael ei gyflenwi gan systemau gwresogi tanwydd ffosil (e.e., nwy naturiol, LPG, neu olew gwresogi)
- Ni ddylai'r gwaith arfaethedig ar y safle fod wedi dechrau eto
- Rhaid cyflwyno prosiectau blwyddyn yn unig erbyn 31 Mawrth 2025, rhaid cyflwyno prosiectau aml-flwyddyn erbyn 31 Mawrth 2026. Mae'r cyllid yn cael ei ymrwymo ar sail blwyddyn ariannol a rhaid ei wario o fewn y flwyddyn ariannol a bennir. Ni ellir cario arian cymeradwy ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r nesaf.

Dylai prosiectau fod wedi bod yn destun gwaith dichonoldeb a datblygu blaenorol, gyda sefydliad yr ymgeisydd yn gwybod yr ateb technoleg ac wedi ymrwymo i gyflawni'r cynllun gwres carbon isel yn y dyfodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Gall ceisiadau gynnwys yr holl waith adeiladu / gwaith cysylltiedig angenrheidiol i gwblhau'r gosodiad. Ni fydd unrhyw eitemau sydd wedi'u cynnwys mewn cais y gellir eu hariannu o ffynhonnell arall yn cael eu cymeradwyo ar gyfer cyllid o'r gronfa hon. Ni fydd cynnwys eitem anghymwys yn effeithio ar gymeradwyo eitemau cymwys, byddant yn cael eu dileu, a lle bo'n briodol, eu cyfeirio at ffynonellau cyllid eraill (e.e. cyllid ôl-osod / Salix ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni).

## Cymhwysedd: technoleg a mesurau

Cymwysiadau derbyniol o fewn y gwaith cyfalaf:

- Gwelliannau i ffabrig yr adeilad, gan gynnwys atal drafftiau lle na ellir ei ariannu o ffynonellau eraill (e.e. cyllid cynnal a chadw ôl-groniad).
- Dosbarthiad gwres ac uwchraddio allyrru (gan gynnwys addasiadau i fatris gwres uned trin aer (AHU)
- Uwchraddio storio thermol
- Pympiau gwres (aer / daear / dŵr), a boeleri trydan (at ddibenion atodol / wrth gefn yn unig)
- Uwchraddio capasiti seilwaith trydanol i ganiatáu gosod pwmp gwres
- Biomas lle nad yw ansawdd aer lleol yn cael effaith andwyol sylweddol, ac nid yw pympiau gwres yn addas
- Rhwydweithiau Gwres o amgylch un safle/campws, e.e. campws ysgol uwchradd fawr
- Uwchraddio i rwydweithiau gwres ardal bresennol (cynhyrchu gwres carbon isel)*
- Gwaith datblygu – gwaith dylunio ac archwilio pellach (e.e. treialon tyllau turio)
- Prosiectau graddol

*Noder na fydd prosiectau Cynllun Effeithlonrwydd Rhwydwaith Gwres cymwys

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

yn cael eu cefnogi gyda'r grant hwn.

## Cymhwysedd: costau anghymwys

Ni fydd y Grant Cyfalaf Gwres Carbon Isel yn cefnogi cyllid ar gyfer:

- Unrhyw brif waith gwresogi tanwydd ffosil e.e. boeleri nwy, Gwres a Phŵer Cyfunedig nwy
- Amnewid systemau gwres carbon isel sy'n bodoli eisoes (bwriedir i'r grant ddisodli systemau tanwydd ffosil)
- Gwresogi Ardal – gosodiadau newydd ac estyniadau i'r systemau presennol, lle mae achos ariannol ac enillion o werthiant gwres
- Gwaith dichonoldeb neu gysyniad
- Costau staff mewnol
- Costau wrth gefn - dylai'r ymgeisydd reoli costau ychwanegol
- Prosiectau lle mae'r gosodiad eisoes wedi dechrau
- TAW y gellir ei adennill – bydd angen i ymgeiswyr reoli'r agwedd llif arian hwn yn briodol lle telir TAW mewn un flwyddyn ariannol, ond adferwyd y nesaf
- Costau gweithredu a chynnal a chadw

## Dull adeilad cyfan

Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr fabwysiadu 'dull adeilad cyfan' tuag at ddatgarboneiddio gwres a symud i ffwrdd o danwydd ffosil. Dylai ceisiadau gynnig atebion wedi'u datgarboneiddio'n llawn, gyda dileu darpariaethau tanwydd ffosil.

Mae atebion pwmp gwres fel arfer yn gofyn am systemau tymheredd is i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

weithredu ar eu mwyaf effeithlon. Felly, rydym yn disgwyl gweld ymgeiswyr yn gostwng llif tymereddau gymaint â phosibl (rhwng 35-55 ºC) er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau posibl o'u systemau gwresogi carbon isel. Gallai hyn olygu bod angen allyrwyr gwres a mesurau i wella inswleiddio.

Rhaid i ymgeiswyr nad ydynt yn bwriadu lleihau llif tymheredd egluro eu dull gweithredu a dangos datrysiad cwbl ddatgarboneiddio.

Rydym yn disgwyl pwmp gwres gydag isafswm Cyfernod Perfformiad Tymhorol (sCOP) o 2.5. Lle mae boeleri wrth gefn / atodol trydanol wedi'u cynnwys, byddem yn disgwyl iddynt gwmpasu dim mwy nag 20% o gyfanswm y galw am wres.

Ar gyfer dull adeilad cyfan sy'n cynnwys mwy o effeithlonrwydd trydanol neu gynhyrchu ynni adnewyddadwy, gellir cael gafael ar gyllid drwy Raglen Ariannu Cymru.

Dylid amlinellu costau uwchraddio cysylltiad trydanol, o bosibl yn cwmpasu mesurau eraill fel systemau gwefru cerbyd trydan (EV) neu ffotofoltäig (PV), yn y ceisiadau. Yna byddwn yn ystyried sut y gellid cefnogi costau uwchraddio'r grid.

# Cyllid sydd ar gael

## Cais am Grant

Yn Rownd 2, gall pob prosiect wneud cais am gyllid hyd at 90% o gyfanswm costau cyfalaf y prosiect. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gallai'r gyfradd ymyrraeth o 90% ostwng yn rowndiau yn y dyfodol, yn dibynnu ar y galw, i wneud y gorau o effaith y gronfa. Byddwn yn rhoi gwybod am unrhyw newid i gyfraddau ymyrryd cyn agor unrhyw rownd ddilynol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Un o'r uchelgeisiau ar gyfer y grant hwn yw meithrin profiad a chapasiti ar gyfer gweithredu gwres carbon isel ar draws ystod eang o fathau o adeiladau. Rydym hefyd yn dymuno lledaenu buddsoddiad ar draws is-sectorau (gofal cymdeithasol, addysg, swyddfeydd hamdden, ac ati). Yn rownd un roedd 75% o'r cyllid wedi'i ymrwymo i ysgolion felly ar gyfer rownd dau, adeiladau eraill fydd yn cael blaenoriaeth, er y bydd ceisiadau am ysgolion yn dal i gael eu hystyried, os bydd arian yn caniatáu.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyfrannu o leiaf 10% o gyfanswm gwerth y prosiect.

Er y byddwn yn cefnogi prosiectau aml-flwyddyn, bydd cyllid yn cael ei ymrwymo o flwyddyn i flwyddyn. Disgwylir i ymgeiswyr reoli eu cyfraniad yn briodol.

Bydd ceisiadau sy'n gwneud y mwyaf o wariant o fewn y flwyddyn ariannol gyntaf yn cael blaenoriaeth. Gall ymgeiswyr gyflwyno prosiectau sy'n ymestyn i'r flwyddyn ariannol ganlynol (h.y. prosiectau aml-flwyddyn). Mae'r cyllid yn cael ei ymrwymo ar sail blwyddyn ariannol a rhaid ei wario o fewn y flwyddyn ariannol a bennir. Ni ellir symud arian cymeradwy o un flwyddyn ariannol i'r nesaf.

Ni fydd y Grant Cyfalaf Gwres Carbon Isel yn dyblygu unrhyw gyllid sy'n bodoli eisoes. Rydym yn annog ymgeiswyr i ddefnyddio ffynonellau cyllid eraill lle bo hynny'n briodol, er mwyn lleihau allyriadau carbon i'r eithaf.

# Meini prawf asesu

## Meini prawf allweddol

- Rydym yn disgwyl i systemau gynhyrchu gwres yn llai na 100g $CO_2e$/kWh

Er na fydd prosiectau'n cael eu hasesu'n uniongyrchol yn erbyn y paramedrau a restrir isod, byddwn yn eu hystyried fel rhan o'r cais i bennu addasrwydd ar gyfer

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cyllid.

### Metrigau sy’n cael eu hystyried

- allbwn gwres kW wedi'i osod fesul £ o gyllid
- kWh/m2 presennol vs. gwell
- £/tCO2e o arbedion (dros oes technoleg)
- Gwybodaeth am ad-daliad/effaith ariannol
- Disgwyl allyriadau CO2e sy'n gysylltiedig â gwres ar ôl gosod ffynhonnell wres carbon isel
- Canran y defnydd o bwmp gwres vs. boeler trydan

### Agweddau ansoddol sy’n cael eu hystyried

- Cyflawni, aeddfedrwydd y prosiect, a thystiolaeth ategol
- Gwydnwch a blaengynllun esblygiad
- Arfarniad opsiynau technegol a gynhaliwyd, gan gynnwys lleihau defnydd ynni sylfaenol / defnydd ffabrig dull cyntaf
- Llywodraethu prosiectau
- Cadarnhad o ystad a gedwir

## Gofynion allweddol eraill

### Darparu gwybodaeth ategol

Dylai'r wybodaeth ategol ganlynol gyd-fynd â cheisiadau am gyllid:

- Gwaith dichonoldeb yn dangos y:
    - Gellir gosod y system yn dechnegol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

    - Disgwylir i'r system ddarparu gwres ar lai na 100g CO2e / kWh
- Taflen manyleb ar gyfer y pwmp gwres neu ffynhonnell wres carbon isel arall
- Tystiolaeth o Gyfernod Perfformiad Tymhorol (sCOP) y pwmp gwres
- Asesiad risg yn amlinellu risgiau mawr i gyflawni prosiectau

Sylwer, nid oes angen lluniadau cynllunio a drychiad sy'n dangos lleoliad a graddfa’r cynllun gyda'r cais cychwynnol. Fodd bynnag, gellir gofyn amdanynt fel rhan o adolygiad y prosiect.

# Amodau

## Ceisiadau am amodau arbennig, data, gwybodaeth a chyfathrebu

- I dderbyn y grant, rhaid i ymgeiswyr ddarparu prawf o amcan bris a phenodiad contractwyr i'r Gwasanaeth Ynni.
- Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ddarparu mynediad i staff gweithredol ar gyfer cyfweliadau/arolygon, ymateb i geisiadau am astudiaethau achos a datganiadau i'r wasg, a chytuno ar geisiadau rhesymol i rannu dysgu a mewnwelediadau. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, rannu gwybodaeth dylunio/perfformiad, cefnogi ymweliadau safle, a rhannu gwybodaeth / lluniau astudiaeth achos.
- Sylwch fod y pot yn gyfyngedig, ac os bydd ceisiadau yn fwy na'r cyllid sydd ar gael, byddwn yn ystyried agweddau megis cyflawni, effaith carbon bosibl a gwaith gwerthuso dichonoldeb/opsiynau blaenorol i flaenoriaethu cyllid.
- Bydd prosiectau cymeradwy yn derbyn llythyr cymeradwyo grant yn nodi telerau ac amodau'r grant. I dderbyn y grant, bydd angen i'r ymgeisydd gwblhau a llofnodi ffurflen gais am grant.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.